***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/02/2015.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, RHAN 2. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 3

# MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

## **RHAN 2**

## SIPSIWN A THEITHWYR

*Deddf Llywodraeth Leol 2003*

23 (1) Mae'r diffiniad o "housing" yn is-adran (4) o adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (datganiadau a strategaethau tai) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) hepgorer y geiriau "section 225 of the Housing Act 2004", a

(b) ar ôl "of" lle mae'n digwydd gyntaf mewnosoder—

"(a) section 225 of the Housing Act 2004, in the case of a local housing authority in England;

(b) Part of the Housing (Wales) Act 2014, in the case of a local housing authority in Wales."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 3 para. 23 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** Atod. 3 para. 23 mewn grym ar 25.2.2015 gan O.S. 2015/380, **ergl. 2(h)**

*Deddf Tai 2004*

24 (1) Mae Deddf Tai 2004 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 225 (dyletswyddau awdurdodau tai lleol: anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr)—

(a) yn is-adran (1), ar ôl "local housing authority" mewnosoder "in England",

(b) yn is-adran (2), ar ôl "local housing authority" mewnosoder "in England",

(c) yn y diffiniad o "gypsies and travellers" yn is-adran (5), yn lle "appropriate national authority" rhodder "Secretary of State", a

(d) yn y pennawd, ar ôl "local housing authorities" mewnosoder "in England".

(3) Yn is-adran (1) o adran 226 (canllawiau mewn perthynas ag adran 225)—

(a) yn lle "appropriate national authority" rhodder "Secretary of State", a

(b) ar ôl "local housing authorities" lle mae'n digwydd gyntaf mewnosoder "in England".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 3 para. 24 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I4** Atod. 3 para. 24 mewn grym ar 25.2.2015 gan O.S. 2015/380, **ergl. 2(h)**

### *Rheoliadau Tai (Asesiad o Anghenion Llety) (Ystyr Sipsiwn a Theithwyr) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3235)*

25 Mae Rheoliadau Tai (Asesiad o Anghenion Llety) (Ystyr Sipsiwn a Theithwyr) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/3235) wedi eu dirymu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 3 para. 25 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I6** Atod. 3 para. 25 mewn grym ar 25.2.2015 gan O.S. 2015/380, **ergl. 2(h)**

### *Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013*

26 (1) Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y diffiniad o "Sipsiwn a Theithwyr" yn adran 62 (dehongli arall), yn lle'r geiriau o "personau" lle mae'n digwydd gyntaf hyd at y diwedd rhodder "—

(a) personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys—

(i) personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol , a

(ii) aelodau o grŵp trefnedig o siwemyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcasau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio); a

(b) unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol;".

(3) yn is-baragraff (1) o baragraff 10 o Atodlen 1 (siewmyn teithiol), hepgorer "safle'n" a mewnosoder "safle nad yw awdurdod lleol yn berchen arno yn".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Atod. 3 para. 26 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I8** Atod. 3 para. 26 mewn grym ar 25.2.2015 gan O.S. 2015/380, **ergl. 2(h)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 25/02/2015.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, RHAN 2.